

Craidd - Sbardun 1 – Ar Lan y Môr...

Darllenwch y ddwy gerdd yma sy'n sôn am yr un lle – glan y môr.

Ar Lan y Môr

Ar lan y môr mae rhosys cochion;
Ar lan y môr mae lilis gwynion;
Ar lan y môr mae 'nghariad inne
Yn cysgu'r nos a chodi'r bore.

Traddodiadol



Penillion Ar Lan y Môr

Ar lan y môr, mae tuniau rhydlyd
Ar lan y môr, mae sbwriel hefyd,
Ar lan y môr, mae bagiau plastig
Ac olew du ar garreg lithrig.

Ar lan y môr, mae gwylan gelain
Fu'n hedfan ar adenydd buain:
Yn awr, mae'n gorwedd ar y tywod,
Ymhlith y baw a'r holl ffeidd-dod.

Mihangel Morgan



Craidd - Sbardun 2 – Cysgu o dan y ddaear

Matmata, Tunisia, Gogledd Affrica

Y dirwedd: Tir sych, tywodlyd, gyda llawer o grateri - eitha tebyg i dirwedd y lleuad. (Mae rhannau o'r ffilm Star Wars wedi eu ffilmio yma gan fod y tir yn edrych fel planed arall.)

Wrth i chi agosáu ac edrych i lawr – i mewn i un o'r crateri - rydych chi'n gweld bod cartrefi a gwestai o dan y ddaear.

Cysgu o dan y ddaea: I dwristiaid, mae cysgu o dan y ddaear yn "ddiddorol" ac yn "gwahanol". I bobl yr ardal, mae'n beth naturiol oherwydd mae hi'n boeth iawn iawn yma yn yr haf - dros 50 gradd Celsius yn aml!

Mae'r gwestai'n gyfforddus – ac mae'r profiad o gysgu tua 6 metr o dan y ddaear yn wahanol iawn.

Beth sydd i'w wneud:

- Gallwch chi fynd i weld y cartrefi o dan y ddaear.
- Gallwch chi ymweld â'r amgueddfa o dan y ddaear – i weld sut roedd y bobl leol yn arfer gwneud carpedi Berber.
- Gallwch chi ymlacio – yn bell o ruthr yr unfed ganrif ar hugain.

Tywydd: Poeth a sych

Sut i gyrraedd: Mae'n hawdd cyrraedd Matmata. Dilynwch y ffordd i'r de o Gabes.

O ddiddordeb: Os ydych chi'n gofyn i chi'ch hun "Sut mae pobl yn gallu gwneud y cartrefi hyn o dan y ddaear?" dyma'r ateb: Maen nhw'n cloddio twll mawr yn y ddaear, yna, maen nhw'n cloddio i mewn i ochrau'r twll, gan greu ogofâu. Dyma'r ystafelloedd. Maen nhw'n eu gwyngalchu nhw wedyn.

Mwynhewch!

Craidd - Sbardun 3 – Sŵn traed yn cerdded a lleisiau'n siarad...

Ydych chi'n credu mewn ysbrydion?

Mae rhai pobl yn dweud bod ysbrydion yn byw mewn hen dai neu hen blastai neu mewn hen gestyll ar hyd a lled Cymru ...

Mae rhai pobl yn mwynhau mynd i'r lleoedd yma yn y nos ac maen nhw'n aros yno drwy'r nos ... yn y tywyllwch ... yn aros i rywbeth ddigwydd ...

Mae un lle yn Ne Cymru'n enwog iawn am ysbrydion - Llancaiach Fawr.

Hen blasty yw Llancaiach Fawr ac mae'n dyddio'n ôl i Amser y Tuduriaid.

Yn 1645, daeth y Brenin Siarl yr Ail i ymweld â'r teulu Prichard oedd yn byw yno.

Heddiw, mae miloedd o ymwelwyr yn mynd i weld y plasty bob blwyddyn ac maen nhw'n cael cip ar fywyd yn y gorffennol ...

... ond mae ymwelwyr eraill yn symud o gwmpas y plasty yn y nos ... yn ôl y sôn ...

Mae rhai pobl yn dweud eu bod nhw wedi gweld ... neu glywed ... plant yn chwarae ar y grisiau – pan doedd dim plant yn y tŷ!

Mae rhai pobl yn dweud eu bod nhw wedi clywed traed yn cerdded ar draws y Neuadd Fawr, er eu bod nhw'n methu gweld neb ...

Mae rhai pobl yn dweud eu bod nhw wedi gweld dynes mewn ffrog wen, hir yn symud o gwmpas lawr llawr. Mae rhai pobl yn meddwl mai Martha ydy hi – y wraig oedd yn arfer cadw'r tŷ ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Tybed?

Mae rhai pobl yn dweud eu bod nhw wedi gweld dyn yn gwisgo clogyn a het dal yn sefyll yn y gerddi...

... ac mae rhai pobl yn dweud eu bod nhw'n clywed lleisiau'n siarad ... ond wrth iddyn nhw agosáu at y lleisiau, maen nhw'n tawelu ...

Mae rhai pobl yn dweud eu bod nhw wedi teimlo rhywun yn eu taro nhw'n ysgafn yn eu cefn ... neu'n tynnu eu dillad wrth iddyn nhw gerdded o gwmpas yr adeilad.

“Hei, beth oedd hwnna?”

Ydych chi'n credu'r pethau hyn? ... neu oes esboniad arall? Tric y golau efallai gormod o ddychymyg ... rhywun yn chwarae tric? Pwy a wŷyr?

Oeddech chi'n gwybod ...?

Roedd pobl yn defnyddio zip-leiniau yn Chwarel y Penrhyn yn 1913 - y chwarel gyntaf i'w defnyddio nhw, ond doedd pobl ddim yn eu reidio nhw bryd hynny. Roedd pobl yn eu defnyddio nhw i gludo'r llechi.

Yr enw ar y math yma o leiniau oedd Blondins – ar ôl y rhaff-gerddwr enwog o Ffrainc, Charles Blondin (geni 1824). Roedd e'n enwog iawn am gerdded ar raff dynn – yn enwedig am gerdded dros Rhaedr Niagara ar raff dynn.

Gwnaeth hyn nifer o weithiau. Ar Fehefin 30, 1859, cerddodd dros y rhaedr ar raff 340 metr o hyd, 8.3 cm mewn diamedr, 49 metr uwchben y dŵr. Yna, croesodd y rhaedr sawl gwaith eto. Unwaith, cerddodd â mwgwd dros ei lygaid, fel ei fod yn methu gweld. Unwaith, croesodd mewn sach. Cerddodd ar stiltiau unwaith a dro arall eisteddodd hanner ffordd ar draws er mwyn gwneud a bwyta omllet. Efallai mai un o'r campau mwyaf peryglus oedd cario'i reolwr ar ei gefn wrth iddo groesi. Roedd e'n un o'r dynion mwyaf anturus yn y byd!

Chwarel y Penrhyn

Chwarel y Penrhyn oedd y chwarel lechi fwyaf yn y byd ar un adeg ac roedd tua 3,000 o ddynion yn gweithio yno. Roedd llechi o Ogledd Cymru'n cael eu hallforio ar draws y byd.

Y chwarel yma yw'r un fwyaf ym Mhrydain o hyd ond dim ond tua 200 o bobl sy'n gweithio yno heddiw. Mae'n dal i allforio llechi i ochr arall y byd!

Estynnol - Sbardun 2 – Shakhtar ... o Hughesovka

Ydych chi wedi clywed am dîm pêl-droed Shakhtar? Maen nhw'n dîm pêl-droed enwog iawn o'r Wcráin ac maen nhw'n chwarae yn y prif bencampwriaethau.

Mae perthynas rhwng y tîm yma a Chymru oherwydd gallech chi ddweud mai Cymro sy'n gyfrifol am fodolaeth FC Shakhtar ...

Yr hanes

Yn 1814, cafodd John Hughes ei eni ym Merthyr Tudful. Roedd ei dad yn brif beiriannydd yng ngwaith haearn Cyfarthfa.

Dechreuodd John ei hun weithio yn y Gwaith Haearn yma, cyn symud i weithfeydd eraill yn Ne Cymru a Lloegr. Roedd yn beiriannydd arbennig a daeth yn enwog iawn.

Roedd e mor enwog, cafodd wahoddiad gan Lywodraeth Rwsia i sefydlu gweithfeydd yn Yr Wcráin. Felly, yn 1870 hwylodd i Rwsia, gyda tua chant o weithwyr haearn a glowyr, y rhan fwyaf ohonyn nhw o Dde Cymru. Aeth ati ar unwaith i sefydlu'r gweithfeydd metel.

Daeth y gweithfeydd yn bwysig iawn ac roedden nhw'n enwog iawn am gynhyrchu darnau ar gyfer rheilffyrdd. Cyn bo hir, datblygodd yr ardal lle roedd y gweithfeydd yn ardal ddiwydiannol lwyddiannus iawn.

Roedd John Hughes ei hun yn enwog a chafodd yr ardal ei henwi ar ei ôl: Hughesovka – neu, yn iaith Yr Wcráin, Yuzovka.

Cafodd yr ardal ei hail-enwi yn Stalino yn 1917, yn dilyn Chwyldro Rwsia, ac yna cafodd ei henwi yn Donetsk yn 1961. Yn Stadiwm Donbass Arena, yn Donetsk, mae tîm pêl-droed Shakhtar yn chwarae.

Felly, petai John Hughes ddim wedi mynd i ddechrau'r gweithfeydd haearn yn Yr Wcráin, efallai na fyddai tîm Shakhtar yn bodoli heddiw. Pwy a wŷr?

Estynnol - Sbardun 3 – Bwyd y Selebs

Oddi wrth: ceri54@cymruweb.com

At: geiriau

Testun: amgueddfa anhygoel

Annwyl **Gweiddi**

Dw i ddim yn berson sy'n treulio oriau yn darllen am fywyd preifat selebs – fel rhai o'm ffrindiau. Dw i ddim yn berson sy'n casglu *memorabilia* chwaith – fel rhai pobl. Dw i ddim yn gallu deall pobl sy'n gwario'u harian ar bethau fel llofnodion, lluniau a hyd yn oed esgidiau a dillad isaf rhyw ganwr pop neu actor. Darllenais i'n ddiweddar am rywun yn prynu un o ddannedd John Lennon, o'r Beatles, am £19,500 (gwirion!) a dw i'n gwybod hefyd am rywun yn prynu ychydig o wallt Justin Bieber - am \$40,668 neu £26,569 (gwirion iawn!)

Er nad oes gen i ddiddordeb mewn casglu pethau fel hyn, es i i rywle rhyfedd iawn y llynedd! Es i i gaffi yng Nghernyw lle roedd amgueddfa wahanol iawn. Na, dim ystafelloedd tywyll yn cynnwys casys gwydr yn llawn pethau diflas ond amgueddfa fach oedd yn arddangos gweddillion bwyd roedd rhai selebs wedi eu gadael ar ôl bwyta. Gwelais i:

- ddarn o Cornetto roedd Eddie Marsan – o *Mission Impossible III* – wedi ei fwyta
- rhan o blisgyn wy gafodd ei ddefnyddio i wneud brechdan wy i Hugh Dennis
- darn o bwdin bara roedd y Tywysog Siarl wedi ei fwyta
- briwsion o *chocolate brownie* roedd aelodau'r band roc Hawkwind wedi eu gadael ar eu plât
- rhan o *croissant* roedd Judi Dench wedi bod yn ei fwyta.

On'd yw hi'n rhyfedd beth mae rhai pobl yn ei gasglu!

Pob hwyl

Ceri Jones

Heriol - Sbardun 1 – James Bond, Harry Potter a Dr Who – yng Nghymru!

Mae llawer o ffilmiau wedi cael eu gwneud yng Nghymru. Pam?

Mae gan Gymru olygfeydd anhygoel sy'n addas ar gyfer pob math o ffilm. Meddyliwch am *Harry Potter and the Deathly Hallows, Part II*, er enghraifft. Roedd rhaid i'r criw ddod o hyd i draeth ar gyfer ffilmio'r rhan ble mae Harry, Ron a Hermione yn cysgodi mewn bwthyn sydd wedi ei wneud o gregyn - *Shell Cottage* – ac ar gyfer claddu Dobby, y corrach. Ble gwell nag un o draethau Sir Benfro? Milltiroedd a milltiroedd o dywod glân; ardal unig heb lawer o bobl a dim atyniadau twristaidd i ddifetha'r olygfa; ardal naturiol, hardd.

Dewisodd y criw ffilmio *Freshwater Beach West*, Sir Benfro ar gyfer y rhan yma o'r stori ac er nad oedd bwthyn o gregyn yno i ddechrau, adeiladon nhw un.

Oes ffilmiau eraill wedi cael eu gwneud yn Sir Benfro?

Oes. Yn 2010, cafodd y ffilm *Robin Hood*, gyda Russell Crowe a Cate Blanchett, ei ffilmio yn yr un ardal. Eto, roedd y traeth agored a'r môr yn berffaith ar gyfer yr olygfa lle mae'r Ffrancod yn dod yn eu cychod ac yn glanio. Gan fod y traeth mor eang, roedd yn berffaith ar gyfer y frwydr gyda'r ceffylau a'r holl ddynion yn ymladd.

Mae'r ddwy ffilm wedi eu ffilmio yn Ne Cymru, oes ffilmiau wedi eu ffilmio yn y Gogledd.

Oes, llawer iawn. Yn y ffilm, *First Knight*, gyda Sean Connery a Richard Gere, rydyn ni'n gweld y Brenin Arthur a'i farchogion yng Nghamelot ... neu a bod yn fyw cywir ... rydyn ni'n gweld y Brenin Arthur a'i farchogion mewn set arbennig a gafodd ei adeiladu ar lan y llyn yn Nhrawsfynydd. Mae'r golygfeydd yn drawiadol iawn ac maen nhw'n ychwanegu llawer at y ffilm.

Mae rhan o'r ffilm *Quantum of Solace*, gyda Daniel Craig yn chwarae rhan James Bond, wedi ei ffilmio yn ardal Llyn Peris, yn Eryri. Ardal hardd, addas ar gyfer yr antur.

Mae rhan o'r ffilm *Clash of the Titans*, gyda Sam Worthington, Liam Neeson, Gemma Arteton a Ralph Fiennes, wedi ei ffilmio yn Chwarel Dinorwig, Gwynedd a Niwbwrch, Ynys Môn, gan fod y golygfeydd yn yr ardaloedd hynny'n berffaith ar gyfer y stori.

Pa actorion enwog sydd wedi dod i Gymru i weithio?

Yn ogystal â'r rhai sydd wedi eu henwi'n barod, daeth Angelina Jolie i actio yn ardal Llyn Gwynant a chwareli llechi Eryri (*Lara Croft and the Cradle of Life*). Mae Hugh Grant wedi actio yn ardal Llanrhaeadr-ym-Mochnant a Llansilin yng Nghanolbarth Cymru yn *The Englishman who went up a Hill but came down a Mountain*. Mae llawer o actorion enwog eraill wedi dod i actio yma hefyd.

Mae llawer o actorion enwog o India wedi bod i actio yma gan fod harddwch y mynyddoedd a'r llynnoedd yn ardal Eryri, yn arbennig, yn creu cefndir hyfryd i ffilmiau rhamant Bollywood.

Beth am ffilmiau Cymraeg?

Rhaid peidio ag anghofio ffilmiau Cymraeg hefyd oherwydd mae llawer iawn o'r rhain wedi bod yn boblogaidd hefyd.

Mae *Hedd Wyn*, gyda Huw Garmon, wedi ei ffilmio mewn gwahanol rannau o Ogledd Cymru. Roedd hon yn ffilm lwyddiannus iawn pan gafodd ei rhyddhau – cafodd hi ei henwebu ar gyfer Oscar hyd yn oed!

Mae *Patagonia*, gyda Matthew Rhys, Duffy a Nia Roberts wedi ei ffilmio mewn gwahanol rannau o Gymru – o Amgueddfa Sain Ffagan a Chaerdydd i Aberystwyth a Blaenau Ffestiniog – i enwi ond rhai lleoedd.

Mae Cymru'n lle da ar gyfer creu ffilmiau, felly.

Ydy – mae'n lle da iawn. Mae'r tir a'r golygfeydd yn amrywio o ardal i ardal ac felly maen nhw'n addas ar gyfer pob math o ffilm. Os ydych chi eisiau harddwch naturiol, mae Eryri, Sir Benfro a Bannau Brycheiniog yn berffaith. Os ydych chi eisiau hen weithfeydd yn gefndir, yna mae chwareli llechi Gogledd Cymru neu byllau glo De Cymru'n addas. Os ydych chi eisiau'r môr – mae digon o ddewis o leoedd ar yr arfordir. Os ydych chi eisiau hen gastell neu hen blasty, mae digon ar hyd a lled Cymru. Mae rhywbeth yma ar gyfer unrhyw fath o ffilm!

Heriol - Sbardun 2 – Prosiectau ar gyfer yr haf

O, beth wna i?

Mae gwyliau'r haf yn gallu bod yn hir – yn enwedig os nad oes gennych chi unrhyw beth i'w wneud. Sawl gwaith fyddwch chi'n dweud y geiriau canlynol yn ystod yr haf, tybed, "Dw i'n bored!", "Does gen i ddim byd i'w wneud!" "O, beth wna i?"

Y newyddion da ydy bod rhai ardaloedd ar draws Cymru'n ceisio datrys y broblem hon drwy drefnu nifer o brosiectau gwahanol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Cynlluniau gwahanol

Mewn rhai ardaloedd, er enghraifft, mae cynlluniau nofio am ddim – sy'n gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc nid yn unig yn cadw'n brysur ond hefyd eu bod nhw'n cadw'n iach. Gwych 'te!

Mewn ardaloedd eraill, mae sesiynau crefft mewn llyfrgelloedd, sy'n cynnig cyfleoedd ardderchog i ddatblygu sgiliau creadigol plant a phobl ifanc.

Mae rhai theatrau'n trefnu gweithdai a chynrychiadau arbennig dros yr haf fel bod pobl ifanc yn dod at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd, i gyfarfod â phobl eraill, i gydweithio ag eraill ac, yn y diwedd, i berfformio drama neu sioe gerdd. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd arbennig iawn ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae rhai eglwysi'n trefnu bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol lle maent yn gallu helpu pobl lai ffodus yn y gymuned.

Prosiectau y llynedd

Un o'r prosiectau gorau y llynedd, efallai, oedd y prosiect i greu rhandir yn ne Cymru.

O dan y cynllun hwn, daeth grŵp o bobl ifanc 11-18 oed at ei gilydd i greu gardd arbennig.

Cafodd y tir ei rannu'n dair rhan - rhan fach ar gyfer blodau, rhan fwy ar gyfer llysiau, a rhan arall ar gyfer lawnt lle roeddent yn gallu ymlacio ar ôl eu gwaith caled.

Roedd hwn yn gyfle rhagorol i fwynhau gweithio yn yr awyr agored ac i dyfu bwyd ffres a thrwy hynny fwyta'n iach.

Roedd prosiect arbennig arall yn gysylltiedig â chreu ffilm am yr ardal. Nid ffilm yn hyrwyddo ardal oedd hon ond ffilm a oedd yn mynegi barn a dyheadau pobl ifanc.

Yn gyntaf, bu'r bobl ifanc yn trafod pa fath o ffilm roeddent yn dymuno'i chreu. Yna, cafodd pawb dasg arbennig. Roedd rhai'n gyfrifol am ddewis lleoliadau, rhai'n gyfrifol am drefnu cyfweiliadau, rhai'n gyfrifol am ffilmio a golygu ac ati.

Yn y diwedd, defnyddiodd y bobl ifanc y ffilm i fynegi eu barn am y cyfleusterau sydd ar gael yn eu hardal ar gyfer pobl ifanc, ac eglurodd nifer ohonynt beth hoffent ei weld yn yr ardal yn y dyfodol.

Penderfynodd y grŵp anfon y ffilm at y cynghorydd lleol, gyda llythyr yn egluro beth yr hoffent ei weld yn cael ei ddatblygu yn yr ardal.

Cafodd y bobl ifanc a gymerodd ran yn y ddau brosiect brofiadau gweth-chweil, llawn hwyl. Gobeithio y cewch chi gyfle i wneud rhywbeth gwerth-chweil, llawn hwyl dros yr haf eleni.

Heriol - Sbardun 3 – Ymlaen ... i’r gofod!

Fel arfer, mae’n cymryd dau ddiwrnod i gyrraedd yr Orsaf Ofod Ryngwladol, sy’n teithio o gwmpas y ddaear, tua 200 o filltiroedd i ffwrdd, ar gyflymder o 17,500 milltir yr awr. Ym mis Mawrth, eleni, fodd bynnag, llwyddodd un astronawt o America a dau gosmonawt o Rwsia i deithio yno mewn llai o amser o lawer.

Dechreuodd Chris Cassidy, Pavel Vinogradov ac Alexander Misurkin eu taith o Kazakhstan am 20:43 (Amser Safonol Greenwich) ar 28 Mawrth, a chyrraeddodd nhw’r Orsaf Ofod Ryngwladol am 02:28 (Amser Safonol Greenwich) ar 29 Mawrth – llai na 6 awr, sef llai o amser na hedfan o Lundain i Efrog Newydd neu deithio mewn car o Ogledd Cymru i Dover yn ne Lloegr!

Yn yr Orsaf Ofod Ryngwladol

Ar ôl cyrraedd yr Orsaf Ofod Ryngwladol, mae’r astronawts a’r cosmonawts yn aros yno am chwe mis fel arfer. Maent yn gwneud arbrofion gwahanol, yn gwella’r orsaf ac yn dod i ddeall mwy am sut mae pobl yn gallu byw a gweithio yn y gofod. Yn ogystal, rhaid iddynt wneud dwy awr o ymarfer corff bob dydd gan fod disgyrchiant isel yn gallu cael effaith wael ar yr ysgerbwd a system cylchrediad y gwaed.

Mae’r astronawts a’r cosmonawts hyn yn bobl arbennig iawn, wrth gwrs. Maent wedi derbyn hyfforddiant arbennig ar gyfer gwneud y gwaith ac ar gyfer medru byw o fewn amgylchedd yr orsaf ofod.

Teithio i’r gofod

Cyn bo hir, fodd bynnag, mae’n bosib y bydd pobl nad ydynt yn astronawts neu’n gosmonawts yn gallu teithio i’r gofod. Mae un cwmni’n gobeithio y bydd yn gallu cynnig gwyliau i bobl yn y gofod yn fuan iawn - yn 2015 - sef ddwy flynedd i ffwrdd.

Ble mae’r cwmni hwn wedi ei leoli? Yn America? Yn Rwsia? Yn China? Nage. Mae’r cwmni wedi ei leoli ym Mhrydain – ar Ynys Manaw – ychydig i’r gogledd o Gymru.

Oeddech chi’n gwybod ...?

Mae Ynys Manaw yn cael ei chyfrif yn bumed yn y rhestr o wledydd sydd yn y “ras ryngwladol i’r gofod” – *the international space race*.

Bwriad y cwmni, Excalibur Almaz, ar Ynys Manaw, yw anfon tri pherson i’r gofod am wyliau a fydd yn para rhwng chwech ac wyth mis. Byddant yn teithio 500,000 o filltiroedd i’r lleuad, lle byddant yn ei cylchdroi, cyn dychwelyd i’r ddaear.

Mae’r daith yn swnio’n ddiddorol tu hwnt. Bydd yn brofiad anhygoel. Mae un broblem fach, fodd bynnag. Pris tocyn fydd 100 miliwn o bunnau! Mae’n well i chi ddechrau cynilo!